UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Ymgynghoriad ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010

Tachwedd 2009

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

Ymgynghoriad ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn falch iawn i gael y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (Addysg) 2010 ynghylch Llywodraethu Ysgolion.

Mae UCAC yn undeb â 5,000 o aelodau sy'n athrawon a phrifathrawon ysgol, darlithwyr Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru. Mae ei phrif swyddfa yng Nghymru, ac mae'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae UCAC yn gwbl fodlon i'r ymateb hwn fod ar gael i'r cyhoedd.

1. Beth yw eich barn ynghylch yr egwyddor gyffredinol y dylid rhoi'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir ym Materion 5.2A, 5.2B a 5.2C i'r Cynulliad Cenedlaethol?

Mae UCAC yn gadarn o blaid yr egwyddor o roi'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd a nodir ym Materion 5.2A, 5.2B a 5.2C i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cred UCAC mai cwbl synhwyrol yw'r egwyddor mai gan y Cynulliad Cenedlaethol y mae'r cymhwysedd dros y materion hyn.

Bydd datganoli'r cymhwysedd deddfwriaethol yn y meysydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth y Cynulliad greu trefniadau ar gyfer llywodraethu ysgolion sy'n cydweddu'n well â'r gyfundrefn addysg yng Nghymru, ac â chyfeiriad polisi addysg yng Nghymru, sy'n gynyddol wahanol i rannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol.

2. Beth yw eich barn am amodau'r Gorchymyn arfaethedig? Er enghraifft, a ydynt wedi eu diffinio'n rhy eang neu'n rhy gul?

Yn gyffredinol, mae UCAC yn hyderus bod cwmpasiad y Gorchymyn arfaethedig yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei hangen i weithredu bwriadau polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys argymhellion adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu 'Swyddogaeth Llywodraethwyr Ysgolion' (Gorffennaf 2009).

Mae UCAC yn cytuno â'r egwyddor bod angen cydraddoldeb o ran cymhwysedd deddfwriaethol, o ran trefniadau llywodraethu, rhwng y sector Addysg Bellach a'r sector ysgolion; mae'r Gorchymyn arfaethedig yn gam tuag at greu'r cydraddoldeb hwnnw.

Serch hynny mae gan UCAC un pwynt penodol, ac un pwynt cyffredinol i'w wneud ynghylch geiriad a chwmpasiad y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r pwynt penodol yn ymwneud â Mater 5.2B: ni chredwn fod angen y gair 'Securing' ar ddechrau'r cymal. Mae cynnwys y gair hwn yn cyfyngu'n ormodol ar gymhwysedd y Cynulliad i ddelio gyda materion 'cydweithredu' mewn ffordd ehangach, ac mi fyddai'r cymal cymaint yn gryfach ac ehangach petai'n hepgor y gair cyntaf ac yn dechrau gyda 'Collaboration between persons or bodies....' Yn ramadegol, mae hyn yn cysoni'r cymal gyda chymalau 5.2A a 5.2C sy'n dechrau gydag enwau (*nouns* - h.y. 'Conduct and governance', 'establishment' ac 'involvement') yn hytrach na gyda berfau.

O ran pwynt cyffredinol, rhaid i UCAC fynegi ei siom nad yw'r Gorchymyn yn cynnwys cymhwysedd deddfwriaethol dros dâl ac amodau gwaith athrawon, sydd yn faes sylweddol a phwysig sy'n parhau heb ei ddatganoli eto i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac sy'n cyfyngu ar allu Llywodraeth y Cynulliad i fwrw ymlaen â pholisïau gwirioneddol Gymreig.

3. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig?

Nac oes.

UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com

www.athrawon.com